adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

# Adnoddau llythrennedd yng Nghymru

## Adolygiad o dystiolaeth ynghylch hybu llythrennedd, diddordeb mewn darllen, a'r adnoddau sydd ar gael

Medi 2026

Comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn gan Adnodd er mwyn helpu i lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol. Ei ddiben yw archwilio tirwedd bresennol adnoddau llythrennedd ledled Cymru ac ystyried tystiolaeth ynghylch pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol i helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd.

I ddyfynnu'r adroddiad hwn:
Adnodd Cyfyngedig (2026) *Llythrennedd yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth ynghylch hybu llythrennedd, diddordeb mewn darllen, a'r adnoddau sydd ar gael.*
Ar gael ar adnodd.llyw.cymru

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 4

1. Cyflwyniad ........ 7

2. Deilliannau llythrennedd ........ 8

3. Yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthyn ni am gymorth llythrennedd effeithiol ........ 10

4. Cael gafael ar adnoddau, tegwch, a'r dirwedd adnoddau yng Nghymru ........ 12

5. Datblygu llythrennedd Cymraeg, dwyieithog ac amlieithog ........ 14

6. Yr hyn sy'n rhwystro ac yn llwyddo i hybu diddordeb mewn darllen ........ 16

7. Meysydd i'w gwella o ran hyrwyddo darllen er pleser ........ 20

8. Tystiolaeth, gwerthuso a chomisiynu yn y dyfodol ........ 22

9. Ystyriaethau ac argymhellion ar gyfer Adnodd a phartneriaid ........ 23

Atodiad A ........ 26

# Crynodeb Gweithredol

**Comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn gan Adnodd er mwyn helpu i lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol. Ei ddiben yw archwilio tirwedd bresennol adnoddau llythrennedd ledled Cymru ac ystyried tystiolaeth ynghylch pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol i helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd.**

Drwy archwilio'r hyn sydd ar gael ac yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'r ymchwil wedi canfod y bylchau ac wedi adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael am yr hyn sy'n gweithio orau.

Yn ogystal ag adolygu'r dystiolaeth, cofnododd yr ymchwil hefyd brofiadau'r rhai a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chynlluniau llythrennedd. Drwy gyfweliadau â dysgwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, archwiliodd yr ymchwil brofiadau ymarferol o gynlluniau llythrennedd a'r amodau sy'n llwyddiannus wrth hybu diddordeb mewn darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhoi dealltwriaeth inni o adnoddau llythrennedd yng Nghymru, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar y defnyddiwr. Ein diffiniad o adnoddau llythrennedd yw'r deunyddiau, yr offer, y canllawiau, yr ymyriadau, y rhaglenni a'r gweithgareddau ategol sy'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu deilliannau llythrennedd dysgwyr.


Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith bod llythrennedd yn ymestyn y tu hwnt i ddatblygu sgiliau technegol yn unig. Ochr yn ochr â chywirdeb darllen, dealltwriaeth, llafaredd ac ysgrifennu, mae deilliannau llythrennedd llwyddiannus hefyd yn cynnwys hyder, cymhelliant a thegwch wrth gael gafael ar ddeunyddiau perthnasol mewn fformatau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog. Dengys yr elfennau hyn fod cyswllt annatod rhwng sgiliau llythrennedd, lefelau diddordeb mewn llythrennedd, a deilliannau addysgol a deilliannau llesiant ehangach.

> **Un o brif ganfyddiadau'r ymchwil yw bod y dulliau mwyaf effeithiol yn cyfuno datblygu sgiliau llythrennedd craidd â chymorth parhaus ar gyfer darllen er pleser. Yn hytrach na thrin y rhain fel blaenoriaethau ar wahân, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall cynnydd mewn un maes gryfhau a chynnal cynnydd yn y llall.**

Mae'r ymchwil yn dangos, er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau, y dylai cynlluniau llythrennedd ystyried yr amodau ehangach sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn rhaglenni. Mae dysgwyr yn fwy tebygol o ddatblygu sgiliau llythrennedd cryf pan fydd darllen, ysgrifennu a siarad yn ystyrlon, yn bleserus, ac yn cael eu cefnogi'n gyson dros amser. Mae deilliannau llythrennedd cadarnhaol yn fwyaf tebygol pan fydd cymorth yn dechrau'n gynnar ac yn cael ei gynnal drwy ymwneud rheolaidd, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith dilynol ac atgyfnerthu parhaus. Gall dull ysgol gyfan helpu i greu'r amodau i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r mwynhad sydd eu hangen arnyn nhw i ffynnu fel darllenwyr, gan hybu llythrennedd ym mhob maes dysgu.

Dangosodd yr ymchwil fod cyfyngiadau yn y sail dystiolaeth bresennol. Cynhelir llawer o werthusiadau gan y sefydliadau sy'n ymwneud â dylunio neu gyflwyno rhaglenni, ac nid oedd yr awduron bob amser yn gwbl annibynnol. At hynny, cymharol brin yw'r dystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, gyda llawer o'r llenyddiaeth sydd ar gael yn dod o gyd-destun y Deyrnas Unedig gyfan neu gyd-destunau rhyngwladol.

Mae amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar y gallu i gael gafael ar adnoddau llythrennedd, gan gynnwys cost, argaeledd, iaith, addasrwydd i'r oedran, darpariaeth leol, cyllidebau ysgolion ac ymwybyddiaeth ymarferwyr.



O'r 51 o raglenni a grybwyllwyd gan randdeiliaid, roedd angen talu i ddefnyddio **34** ohonyn nhw.

Mae un bwlch nodedig yn y ddarpariaeth yn ymwneud â dysgwyr mewn ysgolion uwchradd. Er bod llawer o raglenni yn targedu dysgwyr iau, dim ond 2% oedd wedi'u hanelu at ddarllenwyr oedran uwchradd.

Mae llythrennedd Cymraeg, dwyieithog ac amlieithog yn ystyriaethau pwysig wrth sicrhau bod gan bawb gyfle teg i ddarllen. Cyfeiriodd ymatebwyr i'r ymchwil at nifer o heriau, gan gynnwys bylchau yn argaeledd llyfrau cyfrwng Cymraeg, o ansawdd uchel i bobl ifanc yn eu harddegau, ystod gyfyngedig o genres mewn cyhoeddiadau Cymraeg, a phrinder adnoddau sy'n addas i'r oedran ac sy'n sensitif i dafodiaith. Mae heriau hefyd yn gysylltiedig â chynnydd datblygiad dwyieithog ac argaeledd adnoddau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Gyda'i gilydd, gall y ffactorau hyn ddylanwadu ar ddewisiadau darllen dysgwyr a chyfrannu at fwy o ddibyniaeth ar ddeunyddiau cyfrwng Saesneg.

Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cydnabod yr amrywiol ffyrdd y mae dysgwyr yn mynd ati i ddarllen, gan gynnwys drwy gomics, isdeitlau, testun digidol, llyfrau sain, drama, geiriau caneuon a cherddoriaeth. Ystyriwyd bod gwella'r gallu i gael gafael ar ddeunyddiau deniadol a chynhwysol o ansawdd da yn rhan bwysig o hybu llythrennedd i bob dysgwr.

Mae profiadau ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn awgrymu bod amryw o ffactorau cydgysylltiedig yn llywio sut bydd pobl yn dangos diddordeb mewn llythrennedd. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i gael gafael ar adnoddau addas, hyder, amser, iaith, ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a pha mor berthnasol a hawdd i'w defnyddio yw adnoddau yn ymarferol. Er enghraifft, gall technolegau digidol arwain pobl at adnoddau ac ennyn diddordeb, yn ogystal â chyflwyno heriau fel tynnu sylw pobl oddi wrth ddarllen. Mae profiadau cadarnhaol o lyfrgelloedd hefyd yn bwysig wrth hybu diddordeb mewn llythrennedd, gan arwain pobl at adnoddau, cyfleoedd i ddarganfod a mannau croesawgar i ddarllen a dysgu.

Dylai ystyriaethau ar gyfer hybu llythrennedd a diddordeb mewn darllen yng Nghymru gydbwyso'r gwaith o ddatblygu sgiliau llythrennedd craidd â'r amodau ehangach sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fynd ati i ddarllen ac ysgrifennu mewn ffyrdd ystyrlon, cynaliadwy a phleserus. Er mwyn gwneud hyn, mae angen edrych y tu hwnt i adnoddau unigol ac ystyried sut mae dysgwyr yn ymwneud â llythrennedd ac yn ei brofi mewn cyd-destunau gwahanol. Mae angen i adnoddau fod yn berthnasol, yn hygyrch ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae angen iddyn nhw hefyd gael eu cefnogi gan ymarferwyr a theuluoedd a dylen nhw fod yn gyson rhwng y cartref, yr ysgol a lleoliadau cymunedol. Mae datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn drwy werthuso yr un mor bwysig gan y bydd yn ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio i bwy ac ym mha gyd-destunau ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, gall y camau canlynol helpu i sicrhau bod gan holl blant a phobl ifanc Cymru y cymorth, y cyfle a'r cymhelliant i ddod yn ddarllenwyr hyderus drwy gydol eu hoes:

- Datblygu dull cenedlaethol cydlynol o ran llythrennedd a darllen er pleser
- Datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn am yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru
- Sicrhau bod gan ymarferwyr yr wybodaeth a'r arweiniad angenrheidiol i hybu llythrennedd a darllen er pleser yn effeithiol
- Gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau cynhwysol o ansawdd uchel
- Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd
- Cryfhau cyfranogiad teuluoedd a'r gymuned mewn llythrennedd

**Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cynigir yr argymhellion canlynol:**

1. Dylai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sefydlu dull cenedlaethol mwy cydlynol ar gyfer hybu llythrennedd a darllen er pleser, gan wneud y ddarpariaeth yn llai tameidiog a rhoi mwy o eglurder i ymarferwyr a theuluoedd.
2. Dylid ymgorffori gofynion gwerthuso yn y broses o lunio a chomisiynu rhaglenni ac adnoddau llythrennedd.
3. Dylai Adnodd ystyried gweithio gyda Dysgu a phartneriaid eraill i ddarparu canllawiau clir a hawdd i'w defnyddio i ymarferwyr er mwyn hybu llythrennedd a darllen er pleser.
4. Dylid rhoi blaenoriaeth i gomisiynu adnoddau llythrennedd hygyrch o ansawdd da y gellir eu haddasu. Dylai'r adnoddau hyn fod ar gael am ddim neu'n rhad i ysgolion a theuluoedd; dylen nhw adlewyrchu amrywiaeth o hunaniaethau, diddordebau a phrofiadau; a dylid eu cyflwyno mewn gwahanol fformatau.
5. Dylid comisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn benodol ar gyfer cyd-destunau Cymreig.
6. Dylai Adnodd ystyried comisiynu a chaffael adnoddau a chynlluniau i helpu i ddatblygu llythrennedd dysgwyr oedran uwchradd.
7. Dylai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i atgyfnerthu cymorth i rieni a gofalwyr ac annog pobl i ymwneud â llythrennedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

# 1. Cyflwyniad

**Nod yr ymchwil oedd gwella dealltwriaeth o dirwedd bresennol adnoddau llythrennedd a ddefnyddir gan ddysgwyr ac ymarferwyr[1] yng Nghymru.**

Ystyriodd yr astudiaeth y dystiolaeth am ymyriadau a rhaglenni llythrennedd effeithiol a'r ffyrdd y mae plant a phobl ifanc, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr yn mynd ati'n ymarferol i gymryd rhan mewn cynlluniau llythrennedd.

Mae'r ymchwil yn cyd-fynd â gwaith ehangach Adnodd, sef helpu i ddatblygu adnoddau addysgol o ansawdd da yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r rheini'n adnoddau sy'n hawdd i'w haddasu a'u defnyddio. Yng nghyd-destun llythrennedd, mae hyn yn cynnwys adnoddau sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, yn ymateb i wahanol anghenion dysgwyr ac yn helpu i greu'r amodau i blant a phobl ifanc ddatblygu fel darllenwyr, ysgrifenwyr a chyfathrebwyr hyderus, galluog a brwd.

Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar ddau faes cysylltiedig, sef:

**Archwilio'r dystiolaeth bresennol** am adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd, gan gynnwys dulliau sydd â'r nod o wella deilliannau llythrennedd mewn gwahanol oedrannau a chyfnodau. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth y blynyddoedd cynnar, cymorth llythrennedd mewn ysgolion, cynlluniau darllen er pleser a thystiolaeth o gyd-destunau dwyieithog ac amlieithog rhyngwladol a allai gynnig gwersi defnyddiol i Gymru.

**Ystyried profiadau ymarferol defnyddwyr** o gynlluniau llythrennedd. Roedd hyn yn cynnwys sut mae ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr, a rhanddeiliaid ehangach yn cymryd rhan mewn cynlluniau sy'n hybu llythrennedd a darllen er pleser. Ystyriwyd hefyd y rhwystrau a'r elfennau sy'n cael effaith lwyddiannus ar gyfranogiad.

Mabwysiadodd yr ymchwil ddealltwriaeth eang o lythrennedd. Mae cyrhaeddiad mewn darllen ac ysgrifennu yn parhau i fod yn ganolog, ond mae'r canfyddiadau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd hyder, cymhelliant, mwynhad, y gallu i gael gafael ar adnoddau, cyd-destun ieithyddol a'r cymorth sydd ar gael drwy ysgolion, teuluoedd a chymunedau.

1 – Ystyrir mai adnoddau llythrennedd yw'r deunyddiau, yr offer, y canllawiau, yr ymyriadau, y rhaglenni a'r gweithgareddau ategol sy'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu deilliannau llythrennedd dysgwyr yn Gymraeg a/neu Saesneg. Mae hyn yn cynnwys adnoddau sy'n hybu darllen, ysgrifennu, siarad, gwrando, datblygu geirfa, deall, cyfathrebu ac ymwneud ag iaith drwy'r holl gwricwlwm. Mae hefyd yn cynnwys mwynhad, cymhelliant a'r cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr. Gellir llunio adnoddau llythrennedd ar gyfer defnydd cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth, ymyriadau wedi'u targedu, dysgu annibynnol, ennyn diddordeb teuluoedd neu ddysgu proffesiynol ymarferwyr, a gellir eu darparu mewn fformatau print, digidol, dwyieithog neu amlfoddol.

# 2. Deilliannau llythrennedd

**At ddibenion y gwaith ymchwil hwn, mae deilliannau llythrennedd yn cynnwys newidiadau o ran sgiliau, ymddygiadau, hyder a chymhelliant plant a phobl ifanc, eu gallu i gael gafael ar adnoddau, a lefelau eu diddordeb mewn llythrennedd.**

Yn ogystal â chyrhaeddiad mewn darllen ac ysgrifennu, ymhlith y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad llythrennedd mae lefelau diddordeb dysgwyr mewn llythrennedd, eu gallu i gael gafael ar ddeunyddiau addas, a'r math o gymorth maen nhw'n ei gael gan yr oedolion a'r lleoliadau o'u cwmpas.

Gellir grwpio deilliannau llythrennedd yn dri chategori eang:

Mae deilliannau craidd yn ymwneud â'r sgiliau a'r galluoedd sy'n gysylltiedig â datblygu llythrennedd. Mae'r rhain yn cynnwys cywirdeb darllen, rhuglder, dealltwriaeth, geirfa, llafaredd, ysgrifennu, sillafu a'r gallu i ddygymod â thestunau cynyddol gymhleth drwy'r holl gwricwlwm. Mae'r deilliannau hyn yn parhau i fod yn hanfodol, yn enwedig pan fydd angen addysgu strwythuredig, cymorth wedi'i dargedu neu help ar ddysgwyr i ddeall iaith a thestunau sy'n benodol i bwnc.

Mae deilliannau lefelau diddordeb ac ymddygiad yn ymwneud ag i ba raddau y bydd plant a phobl ifanc yn dangos diddordeb mewn llythrennedd, ac a ydyn nhw'n meithrin arferion llythrennedd cadarnhaol a chynaliadwy ai peidio. Mae'r rhain yn cynnwys darllen er pleser, cymhelliant, arferion darllen, pa mor aml maen nhw'n darllen, hyder, y llyfrau maen nhw'n berchen arnyn nhw, ac agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen, ysgrifennu a chyfathrebu. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall mwynhad, dewis a pherthnasedd personol hybu diddordeb ac y gall hynny, yn ei dro, helpu i ddatblygu llythrennedd yn ehangach.

Mae deilliannau tegwch yn ymwneud â'r amodau ehangach sy'n llywio'r ffordd mae dysgwyr yn achub ar gyfleoedd llythrennedd ac yn elwa ohonyn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i gael gafael ar lyfrau ac adnoddau addas, argaeledd adnoddau yn Gymraeg a Saesneg, y graddau y mae adnoddau yn adlewyrchu hunaniaethau, diddordebau a phrofiadau dysgwyr, ac a ydyn nhw'n hygyrch i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddysgwyr o gefndiroedd ieithyddol gwahanol. Mae'r deilliannau hyn yn bwysig gan nad yw llythrennedd yn cael ei ddatblygu ar ei ben ei hun. Mae'n cael ei lywio gan amgylchiadau'r cartref, diwylliant yr ysgol, darpariaeth leol, cyd-destun ieithyddol, cost, capasiti ymarferwyr ac argaeledd cymorth sy'n barhaus.

Dylid ystyried bod datblygu sgiliau darllen a'r mwynhad o ddarllen yn nodau cysylltiedig yn hytrach na rhai ar wahân. Efallai y bydd angen cymorth strwythuredig ar ddysgwyr gyda dadgodio, rhuglder, dealltwriaeth, geirfa, ysgrifennu neu lafaredd, ond mae hefyd angen hyder arnyn nhw a'r gallu i gael gafael ar ddeunyddiau addas a chyfleoedd i ddangos diddordeb ystyrlon mewn llythrennedd. Ystyrir y berthynas hon rhwng sgiliau, cymhelliant a diddordeb ymhellach yn yr adran nesaf.

## 2.1 Mae ffocws cymorth llythrennedd yn newid mewn gwahanol grwpiau oedran

Yn y blynyddoedd cynnar, mae cysylltiad agos rhwng llythrennedd a datblygiad iaith, gyda phwyslais ar feithrin sgiliau cyfathrebu llafar a meithrin diddordeb cadarnhaol mewn llyfrau ac iaith. Mewn addysg gynradd, mae addysgu llythrennedd strwythuredig yn dod yn fwy amlwg, tra bo’r gallu i gael gafael ar lyfrau deniadol a rhoi cymorth i deuluoedd yn parhau i fod yn bwysig. Mewn addysg uwchradd, mae llythrennedd yn dod yn fwyfwy cysylltiedig â dysgu pynciau, iaith ddisgyblaethol, darllen annibynnol ac ymdrin yn feirniadol â thestunau.







Mae i hyn oblygiadau o ran sut mae adnoddau’n cael eu disgrifio a’u gwerthuso. Gall rhai adnoddau gael eu llunio’n bennaf i wella sgiliau llythrennedd craidd. Gall eraill ganolbwyntio ar hyder, hygyrchedd, arferion darllen, ennyn diddordeb teuluoedd neu ddarllen er pleser. Mae’n debygol y bydd llawer o adnoddau yn cefnogi sawl nod ac, felly, dylid eu gwerthuso o dan fwy nag un categori o ddeilliannau.

# 3. Yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthyn ni am gymorth llythrennedd effeithiol

**Mae canfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth yn dangos bod sawl egwyddor sy'n gysylltiedig â chymorth llythrennedd effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dechrau'n gynnar, parhau i gefnogi dros amser, cyfuno'r gallu i gael gafael ar lyfrau ag arweiniad, cynnal y cysylltiad rhwng datblygu sgiliau a'r mwynhad o ddarllen, a thrin llythrennedd fel cyfrifoldeb drwy'r holl gwricwlwm.**

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr adolygiad o dystiolaeth yn hytrach nag ar ganfyddiadau sy'n ymwneud â phrofiadau defnyddwyr. Ystyrir y rhwystrau, y galluogwyr a'r gwelliannau a awgrymwyd gan ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr a rhanddeiliaid ehangach yn hwyrach yn yr adroddiad.

## 3.1 Dechrau'n gynnar a pharhau i gefnogi

Mae profiadau cynnar o iaith a llythrennedd yn sylfeini pwysig ar gyfer datblygu llythrennedd yn ddiweddarach. Yn achos plant ifanc iawn, mae hyn yn cynnwys rhannu'r profiadau o ddarllen, canu, adrodd straeon, sgwrsio ac arferion cadarnhaol mewn perthynas â llyfrau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi datblygiad iaith cynnar ac yn helpu i sefydlu darllen fel rhan o fywyd bob dydd.

Dangosodd yr adolygiad o dystiolaeth fod arferion gorau yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi rhieni a gofalwyr yn ogystal â darparu llyfrau. Mae darparu llyfrau ar ei ben ei hun yn debygol o fod yn llai effeithiol na rhaglenni sydd hefyd yn helpu rhieni a gofalwyr i ddefnyddio llyfrau'n hyderus gyda phlant. Mae hyn yn cynnwys arweiniad am sut i rannu llyfrau, siarad am straeon, ymateb i ddiddordebau plant a sicrhau bod darllen yn rhan o'r drefn arferol.

Mae cymorth parhaus hefyd yn bwysig. Mae tystiolaeth o raglenni anrhegu llyfrau a llythrennedd teuluol yn dangos bod cyswllt parhaus, gwaith dilynol ac arweiniad gan oedolion yn fwy effeithiol wrth hybu diddordeb na darparu gweithgarwch neu adnodd untro yn unig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fydd teuluoedd yn wynebu rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amser, hyder, cost, y gallu i gael gafael ar adnoddau neu ddarpariaeth leol gyfyngedig, fel llyfrgelloedd.

## 3.2 Cyfuno'r gallu i gael gafael ar lyfrau ag arweiniad ac anogaeth

Mae'r gallu i gael gafael ar lyfrau ac adnoddau llythrennedd eraill yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer hybu diddordeb ond, fel y nodwyd uchod, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw hyn ar ei ben ei hun yn ddigon. Ymddengys fod rhaglenni yn fwy effeithiol pan gyfunir adnoddau ag anogaeth, arweiniad, gweithgareddau ar y cyd neu gymorth gan oedolion y mae dysgwyr yn ymddiried ynddyn nhw.

Mae hyn yn wir yn y cartref, yn yr ysgol ac mewn lleoliadau cymunedol. Gall rhieni a gofalwyr gael budd o ganllawiau ymarferol am sut i gefnogi darllen yn effeithiol, heb fod angen

gwybodaeth na hyfforddiant arbenigol. Mae angen adnoddau ar ymarferwyr sy'n hawdd i'w defnyddio ac y gellir eu haddasu ar gyfer gwahanol ddysgwyr. Gall llyfrgelloedd, lleoliadau cymunedol a llwybrau lleol eraill – er enghraifft clybiau chwaraeon a chelfyddydau – hefyd gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc brofi llyfrau a darllen y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae tystiolaeth o raglenni anrhegu llyfrau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cael rhesymeg glir dros sut disgwylir i ddarpariaeth gefnogi deilliannau. Dangosodd gwerthusiadau o rai rhaglenni mai cyfyngedig oedd yr effaith os nad oedd cymorth digonol yn cael ei roi i'r oedolion perthnasol, neu os nad oedd damcaniaeth glir ar gyfer newid pethau, i gyd-fynd â'r llyfrau fyddai'n cael eu darparu.

## 3.3 Dwyn datblygu sgiliau a'r mwynhad o ddarllen ynghyd

Mae addysgu sgiliau llythrennedd strwythuredig, fel ffoneg, yn parhau i fod yn ganolog. Mae angen cymorth ar ddysgwyr i ddatblygu cywirdeb darllen, rhuglder, dealltwriaeth, geirfa, ysgrifennu, sillafu, siarad a gwrando. Mae cymorth wedi'i dargedu hefyd yn bwysig i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd dangos diddordeb mewn llythrennedd neu ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnyn nhw i wneud hynny.

Ar yr un pryd, dangosodd yr adolygiad o dystiolaeth fod darllen er pleser, cymhelliant a lefelau diddordeb yn gysylltiedig â deilliannau llythrennedd cadarnhaol. Felly, ni ddylid ystyried bod datblygu sgiliau a'r mwynhad o ddarllen yn nodau ar wahân na chroes. Gall mwynhad annog diddordeb ehangach mewn llythrennedd, tra gall sgiliau llythrennedd craidd alluogi dysgwyr i ddeall testunau gyda mwy o hyder.

Mae'r cydbwysedd hwn yn bwysig yn yr holl grwpiau oedran. Yn y blynyddoedd cynnar, mae pwyslais ar ddatblygu iaith, darllen ar y cyd a sefydlu arferion. Mewn addysg gynradd, mae addysgu llythrennedd strwythuredig yn dod yn fwy amlwg ond mae'r gallu i gael gafael ar lyfrau a mwynhad yn parhau i fod yn bwysig. Mewn addysg uwchradd, mae angen i ddysgwyr gael cymorth i ddatblygu sgiliau llythrennedd mwy cymhleth a phenodol i'r pwnc ac, ar yr un pryd, barhau i gael cyfleoedd i ddarllen mewn ffyrdd sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ystyrlon.

## 3.4 Hybu llythrennedd drwy'r holl gwricwlwm

Mewn lleoliadau uwchradd, mae llythrennedd yn dod yn fwyfwy cysylltiedig â dysgu pynciau. Mae angen i ddysgwyr ddarllen, ysgrifennu, siarad a gwrando mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol feysydd dysgu a phrofiad, gan gynnwys defnyddio geirfa pwnc-benodol a gwahanol ddulliau o esbonio, dehongli a dadlau.

Dangosodd canfyddiadau o'r adolygiad o dystiolaeth a barn rhanddeiliaid bwysigrwydd dulliau ysgol gyfan a thrawsgwricwlaidd. Ni ddylid cyfyngu llythrennedd i wersi Saesneg a Chymraeg nac ychwaith i'r maes Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm. Mae angen i ysgolion ystyried sut mae darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn cael eu cefnogi yn yr holl wahanol bynciau a sut gellir cynnal diddordeb mewn darllen ochr yn ochr â gofynion y cwricwlwm.


Mae darllen er pleser hefyd yn elwa o ddiwylliant ysgol ehangach lle mae darllen yn weladwy ac yn cael ei werthfawrogi. Mae tystiolaeth o'r adolygiad yn dangos bod arweinyddiaeth mewn ysgolion, hyder ymarferwyr, y gallu i gael gafael ar adnoddau a dysgu proffesiynol yn ffactorau a all gefnogi hyn. Ystyrir y materion hyn yn fanylach yn adrannau diweddarach yr adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar rwystrau, galluogwyr a meysydd i'w gwella.

# 4. Cael gafael ar adnoddau, tegwch, a’r dirwedd adnoddau yng Nghymru

**Nid dim ond bodolaeth deunyddiau sy’n dylanwadu ar allu pobl i gael gafael ar adnoddau llythrennedd. Dangosodd yr ymchwil fod cost, argaeledd, iaith, addasrwydd o ran oedran, darpariaeth leol, cyllidebau ysgolion ac ymwybyddiaeth ymarferwyr yn ffactorau sy’n effeithio ar allu dysgwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr i ddefnyddio adnoddau a bod yn rhan o gynlluniau llythrennedd.**

## 4.1 Y dirwedd rhaglenni

Daeth yr ymarfer mapio o hyd i 51 o raglenni unigryw y cyfeiriwyd atyn nhw gan randdeiliaid. Nid yw’r rhain yn cynrychioli tirwedd lawn ymyriadau llythrennedd na chynlluniau darllen er pleser yng Nghymru ond maen nhw’n rhoi gwybodaeth am y gweithgarwch sy’n hysbys i’r rhai a gyfrannodd at yr ymchwil.



O blith y cynlluniau y cyfeiriwyd atyn nhw gan randdeiliaid, dim ond **18** oedd yn ymwneud yn benodol â hyrwyddo darllen er pleser, tra bo **33** yn canolbwyntio’n llwyr ar ymyriadau i ddatblygu sgiliau llythrennedd.

Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a oes digon o sylw yn cael ei roi i hybu diddordeb mewn darllen ochr yn ochr â datblygu sgiliau llythrennedd.

Dengys dadansoddiad o’r ymarfer mapio mai yn y cyfnodau cyn-ysgol a chynradd yr oedd y rhan helaethaf o’r ddarpariaeth i’w chael. O blith y rhaglenni a gafodd eu henwi, dim ond 2% a oedd wedi’u hanelu at ddysgwyr oedran ysgol uwchradd ac ni chyfeiriodd rhanddeiliaid o gwbl at raglenni wedi’u targedu’n bennaf at ddysgwyr 16 oed a hŷn.

Dangosodd yr ymarfer mapio hefyd fod y rhaglenni a enwyd gan randdeiliaid yn cael eu cyflwyno gan ysgolion yn bennaf a’u bod wedi cael eu datblygu’n fasnachol. O blith y 51 o raglenni a grybwyllwyd, roedd 36 wedi’u cynhyrchu’n fasnachol tra bo 15 yn cael eu harwain gan y llywodraeth neu elusennau.

## 4.2 Cost a chodi tâl am ddefnydd

Roedd cost yn nodwedd bwysig yn y dirwedd rhaglenni. Dangosodd yr ymchwil fod 34 o’r rhaglenni a enwyd yn codi tâl ar bobl i ddefnyddio’r rhaglenni hynny. Roedd y prisiau’n amrywio’n fawr, o tua £20 am ychydig o daflenni gwaith neu lyfrau, i £6,000+ am adnoddau dysgu ac addysgu proffesiynol.

Dywedwyd y gallai codi tâl am adnoddau fod yn broblem o ran tegwch. Yn aml, mae rhaglenni yn gofyn am danysgrifiadau, trwyddedau, llyfrau neu becynnau hyfforddi, a all effeithio ar b’un a all ysgolion a theuluoedd fanteisio arnyn nhw ai peidio. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cyllidebau cyfyngedig ysgolion a phwysau cost ar aelwydydd.

Dangosodd yr ymchwil hefyd y gallai ymwybyddiaeth gyfyngedig o ddarpariaeth am ddim neu gost is effeithio ar ganfyddiadau pobl ynghylch yr hyn sydd ar gael. Pan fydd adnoddau am ddim ar gael ond nad ydyn nhw'n hysbys iawn, gall ymarferwyr a theuluoedd barhau i gael trafferth i ddeall y ddarpariaeth.

## 4.3 Natur dameidiog y ddarpariaeth ac ymwybyddiaeth

Disgrifiodd rhanddeiliaid y dirwedd adnoddau a rhaglenni fel un gymhleth, dameidiog, wasgaredig neu anodd i'w deall. Nodwyd bod ysgolion yn wynebu "cynnig di-drefn" o ran yr adnoddau a'r rhaglenni sydd ar gael iddyn nhw, sy'n ei gwneud hi'n anoddach canfod pa raglenni sy'n hybu darllen er pleser a pha rai sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau.

Dywedodd ymarferwyr hefyd nad oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth ynghylch ble i ddod o hyd i lyfrau a deunyddiau darllen o ansawdd uchel a chynrychioliadol. Roedd yn ymddangos bod ymwybyddiaeth o gynlluniau darllen er pleser yn is nag ymwybyddiaeth o ddulliau sy'n canolbwyntio ar addysgeg llythrennedd.

Roedd natur dameidiog y ddarpariaeth hefyd yn gysylltiedig â heriau'n ymwneud â thystiolaeth a gwerthuso. Dywedodd rhanddeiliaid mai prin oedd y dystiolaeth gymharol am yr hyn sy'n gweithio a disgrifiwyd rhai cynlluniau yn rhai byrdymor neu ad hoc, neu'n rhai oedd yn gorgyffwrdd â'i gilydd.

## 4.4 Oedran a chael gafael ar adnoddau

Roedd oedran yn ffactor amlwg yn y dirwedd rhaglenni. Fel y nodwyd eisoes, dywedodd rhanddeiliaid fod darpariaeth gryfach o lawer ar gyfer dysgwyr cyn oed ysgol a dysgwyr oed cynradd nag ar gyfer dysgwyr hŷn. Mae'r ymchwil hefyd yn cofnodi canfyddiad ymhlith ymarferwyr, rhieni a rhanddeiliaid bod argaeledd cynlluniau sy'n hyrwyddo darllen er pleser yn lleihau gydag oedran.

Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd gall dysgwyr oedran uwchradd barhau i fod angen cymorth i ddangos diddordeb mewn darllen, i gael gafael ar ddeunyddiau addas, ac i ddatblygu llythrennedd sy'n benodol i bynciau. Ystyrir manylion y rhwystrau y mae dysgwyr yn eu hwynebu, ynghyd â'r ffactorau galluogi, yn ddiweddarach ond dengys yr ymarfer mapio rhaglenni nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn cynrychioli dysgwyr hŷn i'r un graddau â dysgwyr eraill.

## 4.5 Cael gafael ar adnoddau fel mater trawsbynciol

Mae'r gallu i gael gafael ar adnoddau yn fater trawsbynciol, felly, drwy'r holl faes hwn. Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar hyn y mae cost, ymwybyddiaeth, iaith, oedran, darpariaeth leol a'r graddau y mae adnoddau ar gael mewn fformatau a lleoliadau y gall ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr gael gafael arnyn nhw a'u defnyddio.

Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at yr angen i ddeall sut mae cael gafael ar adnoddau ar lefel y dirwedd ehangach, nid dim ond ar lefel adnoddau unigol. Mae hyn yn cynnwys sut mae rhaglenni yn cael eu hariannu, ble maen nhw'n cael eu cyflwyno, pwy sy'n gwybod amdanyn nhw ac a yw'r ddarpariaeth yn weladwy ac yn ddefnyddiadwy yn y cartref, yr ysgol, y llyfrgell ac mewn cyd-destunau cymunedol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw'n benodol at bryderon ynghylch y gallu i ddefnyddio llyfrgelloedd, o ystyried eu rôl yn sicrhau bod pobl yn gallu cael llyfrau a chyfleoedd i ddarllen yn lleol ac mewn ffordd deg.

# 5. Datblygu llythrennedd Cymraeg, dwyieithog ac amlieithog

Mae llythrennedd Cymraeg, dwyieithog ac amlieithog yn ystyriaethau canolog yn nhirwedd adnoddau llythrennedd Cymru. Dangosodd yr ymchwil fod iaith yn ffactor sy'n effeithio ar y gallu i gael gafael ar adnoddau, lefelau diddordeb dysgwyr, cymorth i rieni a gofalwyr, a defnydd ymarferwyr.

## 5.1 Dwyieithrwydd fel ased

Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn dangos bod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn bethau cadarnhaol. Canfuwyd tystiolaeth y gall datblygu llythrennedd mewn un iaith hybu deilliannau iaith a dysgu ehangach pan gaiff adnoddau a dulliau eu llunio'n fwriadol. Yn hytrach na gwneud datblygu llythrennedd yn anoddach, gall dysgu darllen ac ysgrifennu mewn mwy nag un iaith gryfhau datblygiad llythrennedd yn gyffredinol, gyda sgiliau a ddysgir mewn un iaith yn cefnogi'r llall.

Yn achos Cymru, mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin llythrennedd yn Gymraeg a Saesneg mewn ffyrdd cysylltiedig. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen i gydnabod bod profiadau rhai dysgwyr o lythrennedd yn golygu defnyddio ieithoedd eraill gartref.

## 5.2 Dylai adnoddau cyfrwng Cymraeg fod yn ddilys ac yn ddiwylliannol ystyrlon

Dangosodd yr ymchwil fod angen adnoddau cyfrwng Cymraeg sy'n teimlo'n ddilys ac yn ddiwylliannol ystyrlon yn eu rhinwedd eu hunain. Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch adnoddau sy'n teimlo fel eu bod wedi'u cyfieithu, yn rhy ffurfiol, yn anghydweddol yn rhanbarthol neu'n amherthnasol i ddiddordebau dysgwyr.

Ystyriwyd enghreifftiau rhyngwladol fel rhan o'r adolygiad o dystiolaeth ond mae'r ymchwil yn pwysleisio pwysigrwydd addasu yn hytrach na mabwysiadu'r arferion hynny. Gallai dulliau gweithio sy'n perthyn i gyd-destunau dwyieithog neu amlieithog eraill ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ond mae angen eu hystyried mewn perthynas â chyd-destun ieithyddol, diwylliannol ac addysgol Cymru.

## 5.3 Bylchau allweddol yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at sawl bwlch yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg llyfrau Cymraeg o ansawdd da ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, a phrinder amrywiaeth o ran genres. Ceir hefyd brinder adnoddau sy'n adlewyrchu gwahanol dafodieithoedd, adnoddau sy'n addas i oedran y dysgwyr, deunyddiau sy'n hybu cynnydd dwyieithog, ac adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd y bwlch ar gyfer dysgwyr hŷn yn arbennig o amlwg. Dywedodd rhanddeiliaid fod prinder llyfrau Cymraeg deniadol i bobl ifanc, a dywedodd rhai y gallai dysgwyr droi at y Saesneg pan nad oes llyfrau Cymraeg addas ar gael neu pan nad ydyn nhw'n ddeniadol.

Amlygodd yr ymchwil hefyd bryderon ynghylch yr amrywiaeth o genres sydd ar gael mewn cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at fylchau mewn meysydd fel chwaraeon, ffuglen wyddonol a'r celfyddydau. Mae'r pwyntiau hyn yn mynd ochr yn ochr â chanfyddiadau ehangach am y dewis i ddysgwyr, eu diddordebau a pherthnasedd.

## 5.4 Helpu i ddatblygu llythrennedd Cymraeg, Saesneg ac amlieithog

Mae angen i adnoddau hybu cynnydd yn Gymraeg a Saesneg. Pan fydd dysgwyr yn cael eu haddysgu'n briodol yn y ddwy iaith, mae cyfleoedd iddyn nhw drosglwyddo sgiliau rhwng ieithoedd. Mae'r rhain yn cynnwys geirfa, dealltwriaeth, gramadeg, morffoleg, sgiliau dadgodio ac amgodio, yn ogystal â strategaethau darllen. Yn yr un modd, os yw dysgwyr a'u teuluoedd yn defnyddio ieithoedd eraill, mae cyfleoedd i drosglwyddo sgiliau.

Mae iaith hefyd yn effeithio ar y gallu i gael cymorth. Mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg, efallai na fydd rhai rhieni a gofalwyr yn siarad Cymraeg eu hunain, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cefnogi darllen yn y cartref trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriwyd at broblemau tebyg mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, pan nad oes adnoddau na ffyrdd o gyfathrebu ar gael yn yr ieithoedd y maen nhw fwyaf hyderus yn eu defnyddio.

## 5.5 Goblygiadau o ran datblygu adnoddau

Mae'r canfyddiadau'n dangos y dylid ystyried darpariaeth Gymraeg a dwyieithog o ddechrau'r broses o ddatblygu adnoddau. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys cynnydd yn y Gymraeg a'r Saesneg, perthnasedd diwylliannol, tafodiaith, amrywiaeth genres, addasrwydd i'r oedran, hygyrchedd ac addasrwydd i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai'r broses o ddatblygu adnoddau hefyd ystyried anghenion ieithyddol rhieni a gofalwyr, gan sicrhau bod deunyddiau cymorth a gohebiaeth ar gael i deuluoedd mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i helpu i ddatblygu llythrennedd yn effeithiol.



# 6. Yr hyn sy'n rhwystro ac yn llwyddo i hybu diddordeb mewn darllen

Mae amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar lwyddiant cynlluniau sy'n ceisio hybu llythrennedd. Mae'r rhain yn amrywio rhwng ymarferwyr, dysgwyr, a rhieni a gofalwyr, ond mae sawl thema yn codi dro ar ôl tro drwy'r holl grwpiau.

Ymhlith y ffactorau sy'n dylanwadu ar lefelau diddordeb, mae'r gallu i gael gafael ar adnoddau addas, hyder, amser, iaith, ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, ac i ba raddau yr ystyrir bod adnoddau yn berthnasol ac yn hawdd i'w defnyddio yn ymarferol.

## 6.1 Ymarferwyr

Cyfeiriwyd at y ffaith bod amser a chapasiti yn ffactorau o bwys sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan mewn cynlluniau llythrennedd. Efallai mai dim ond ychydig o amser sydd gan ymarferwyr i chwilio am adnoddau, asesu eu hansawdd, addasu deunyddiau, cyfieithu cynnwys neu deilwra cymorth ar gyfer dysgwyr unigol. Gall adnoddau y mae angen eu haddasu'n sylweddol ychwanegu at y llwyth gwaith.

Dywedwyd bod ymwybyddiaeth a hyder yn rhwystrau hefyd. Efallai mai dim ond hyn a hyn o wybodaeth sydd gan staff am ble i ddod o hyd i ddeunyddiau cynrychioliadol o ansawdd da sy'n addas i'r oedran, yn enwedig adnoddau sy'n hybu darllen er pleser yn hytrach na sgiliau llythrennedd yn unig. Dywedodd rhai ymarferwyr hefyd nad oedd adnoddau a oedd ar gael bob amser yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru neu nad oedden nhw'n addas i gyd-destun eu hysgol.

Dywedodd ymarferwyr hefyd fod angen tystiolaeth gliriach am yr hyn sy'n gweithio, ochr yn ochr â dysgu proffesiynol, i helpu i ddatblygu llythrennedd y tu hwnt i sgiliau sylfaenol fel ffoneg, dadgodio a geirfa. Os nad oes gan ymarferwyr fawr ddim profiad o ddarllen er pleser eu hunain, gall hynny hefyd danseilio'u hyder wrth argymell deunydd darllen neu wrth geisio rhoi patrwm da i'w efelychu.

Roedd ymarferwyr yn rhoi gwerth ar ddeunyddiau parod y gellir eu haddasu sy'n ffitio'n naturiol i drefn yr ystafell ddosbarth ac sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ystyriwyd bod dysgu proffesiynol, canllawiau ymarferol, dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyfleoedd i rannu gwybodaeth yn alluogwyr pwysig.

Roedd cymorth ar lefel yr ysgol yn ffactor pwysig arall. Gall arweinyddiaeth, cyllideb, amser, y trefniadau cyflenwi a'r hyfforddiant sy'n cael ei roi i gyd helpu ymarferwyr i ymwneud â'r maes. Dywedodd ymarferwyr eu bod yn gwerthfawrogi adnoddau a rhaglenni sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac sy'n hybu llythrennedd drwy'r holl gwricwlwm, yn hytrach na chanolbwyntio ar wersi iaith neu lenyddiaeth yn unig.

## 6.2 Dysgwyr

Roedd dysgwyr yn dweud bod iaith anodd, geirfa anghyfarwydd a llyfrau mwy heriol yn rhwystrau rhag mynd ati i ddarllen. Dywedodd rhai eu bod yn colli diddordeb mewn darllen neu'n rhoi'r gorau i ddarllen pan nad oedden nhw'n deall y testun. Yn yr un modd, dywedodd ymarferwyr

a rhanddeiliaid fod sgiliau sylfaenol gwan, gan gynnwys dadgodio, dealltwriaeth a hyder, yn rhwystrau wrth geisio hybu diddordeb.

Mae darllen ar y lefel briodol yn bwysig iawn. Er bod angen symud ymlaen i destunau hirach a mwy cymhleth, dywedodd rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr y gall hyn ladd diddordeb pan fydd dysgwyr yn gweld y newid yn llethol neu'n rhy anodd, neu pan na fydd yn rhoi mwynhad a dewis. Dywedodd dysgwyr hefyd fod cymorth gyda geiriau anodd, cyfleoedd i ddarllen ar eu pwys eu hunain, a chymorth pan fo angen yn ffactorau sy'n gwneud darllen yn haws. Yn yr un modd, dywedodd rhanddeiliaid fod sgiliau llythrennedd sylfaenol cryf yn alluogwr pwysig.



Pwysleisiodd y dysgwyr bwysigrwydd gallu cael gafael ar lyfrau a oedd yn cyd-fynd â'u diddordebau. Nodwyd bod llyfrau anniddorol yn rhwystr, tra bo dewis yn cael ei ddisgrifio'n gyson fel galluogwr pwysig. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi dewis llyfrau mewn llyfrgelloedd, darllen broliannau, mynd i ffeiriau llyfrau, a dilyn argymhellion ffrindiau, teulu ac athrawon.

Adleisiodd ymarferwyr a rhanddeiliaid y safbwyntiau hyn, gan bwysleisio pwysigrwydd rhoi dewis i'r dysgwr, cynrychiolaeth a diddordebau personol i hybu diddordeb. Roedden nhw hefyd yn dweud bod prinder deunyddiau deniadol, cyfoes sy'n addas i'r oedran, yn enwedig ar gyfer dysgwyr hŷn ac o fewn darpariaeth Gymraeg, yn rhwystro dysgwyr rhag mynd ati i ddarllen.

Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder ynghylch a yw'r cynlluniau presennol yn llwyddo i gyrraedd y dysgwyr sydd leiaf tebygol o fynd ati i ddarllen. Awgrymwyd y gallai'r gweithgareddau hyn fod yn fwy deniadol i blant a phobl ifanc sydd eisoes yn dangos diddordeb mewn llyfrau a darllen.

Roedd y cyd-destun o ran sut a phryd y bydd pobl yn darllen hefyd yn dylanwadu ar lefelau diddordeb. Roedd yn well gan rai dysgwyr ddarllen yn annibynnol am eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu barnu llai, tra bo eraill yn gwerthfawrogi cael cymorth pan oedden nhw'n wynebu anawsterau. Disgrifiodd dysgwyr ddarllen yn uchel yn y dosbarth fel rhywbeth anghyfforddus pan oedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu rhuthro neu eu barnu neu nad oedden nhw'n gallu dilyn y stori.

Roedd llawer o ddysgwyr yn ystyried bod cymorth teuluol yn rhywbeth cadarnhaol, yn enwedig pan oedd darllen gyda'i gilydd yn teimlo'n fwy cyfforddus na darllen yn uchel yn y dosbarth. Yn yr un modd, dywedodd rhieni, gofalwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid fod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fynd ati i ddarllen pan fyddan nhw'n cael anogaeth, pan fydd oedolion yn rhoi patrwm cadarnhaol i'w efelychu, a phan fydd cyfleoedd i rannu darllen ag eraill.

Dywedwyd bod y gallu i gael gafael ar adnoddau yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar lefelau diddordeb. Er na wnaeth y gwaith i holi barn dysgwyr edrych yn fanwl ar amddifadedd nac anghenion dysgu ychwanegol, dywedodd ymarferwyr a rhanddeiliaid fod cost, prinder llyfrau gartref a'r angen am adnoddau mwy penodol yn rhwystrau.

Daeth iaith i'r amlwg fel ystyriaeth bwysig hefyd. Dywedodd un dysgwr fod darllen yn ei helpu i ymarfer Saesneg tra dywedodd rhanddeiliaid fod Saesneg fel iaith ychwanegol, hyder yn y Gymraeg a'r gallu i gael gafael ar lyfrau Cymraeg addas yn ffactorau a all effeithio ar lefelau diddordeb.

Pwysleisiodd dysgwyr hefyd bwysigrwydd y gallu i gael gafael ar lyfrau a phwysigrwydd mannau darllen cyfforddus tra dywedodd rhanddeiliaid fod y gallu i gael gafael yn rheolaidd ar lyfrau mewn print, y gallu i fynd yn rheolaidd i lyfrgelloedd, a dulliau addysgu amgen yn fodd o hybu diddordeb.

Cyfeiriodd dysgwyr at amrywiaeth o bethau sy'n tynnu sylw pobl ac a allai effeithio ar ddarllen, gan gynnwys apiau, gemau, naidlenni, sgyrsiau gerllaw a blinder. Yn yr un modd, awgrymodd ymarferwyr a rhieni fod amser o flaen sgrin, gweithgareddau allgyrsiol a phwysau bywyd bob dydd yn lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer darllen.

Cymysg oedd y farn am ddarllen digidol. Roedd rhai dysgwyr yn gwerthfawrogi apiau, Kindles, llyfrau sain, comics, lluniau a gweithgareddau rhyngweithiol fel ffyrdd o hybu eu diddordeb mewn darllen. Roedd ymarferwyr a rhieni hefyd yn ystyried bod technoleg, cyfryngau cymdeithasol, gemau ac apiau yn alluogwyr posibl pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio i ehangu cyfleoedd i ddarllen.

## 6.3 Rhieni a gofalwyr

Roedd amser a blaenoriaethau croes yn heriau cyffredin i rieni a gofalwyr, gan gynnwys ymrwymiadau gwaith, pwysau ehangach yn y cartref, blinder a straen. Hyd yn oed pan oedd rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi darllen, gallai'r pwysau hyn ei gwneud hi'n anodd sefydlu arferion darllen rheolaidd.

Roedd hyder yn rhwystr arall. Gall hyder rhieni a gofalwyr yn eu llythrennedd eu hunain a'u profiadau blaenorol o addysg effeithio ar sut byddan nhw'n cyfrannu. Nid oedd rhai rhieni a gofalwyr yn siŵr sut i gefnogi gwaith darllen eu plentyn neu roedden nhw'n poeni am wneud y peth anghywir. Dywedodd ymarferwyr hefyd nad oedd rhai rhieni a gofalwyr bob amser yn cydnabod eu rôl eu hunain wrth gefnogi llythrennedd a darllen.

Roedd dealltwriaeth o ddarllen hefyd yn berthnasol. Roedd rhai rhieni a gofalwyr yn canolbwyntio ar ddarllen ffurfiol neu ddarllen yn uchel, tra nad oedd ystod ehangach o weithgareddau a all hybu diddordeb mewn llythrennedd, gan gynnwys trafod lluniau, gofyn cwestiynau, datblygu geirfa a darllen digidol neu anffurfiol, bob amser yn cael eu cydnabod fel rhan o ddarllen er pleser.

Fel y nodwyd uchod, gallai iaith hefyd effeithio ar gyfraniad rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, gallai dealltwriaeth well o fân wahaniaethau ieithyddol datblygiad llythrennedd yng Nghymru eu helpu i gyfrannu mwy, rhoi hwb i hyder a sicrhau cydberthnasau mwy cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol.

Dywedwyd bod canllawiau clir, ymarferol ac anfeirniadol, ynghyd â'r gallu i gael gafael ar lyfrau, adnoddau i'w defnyddio gartref a chymhellion hwyliog megis pasbortau darllen, stampiau a thystysgrifau, yn ffactorau pwysig wrth helpu rhieni a gofalwyr i gyfrannu.

Pwysleisiwyd hefyd fod llyfrau print a anfonir adref, ffolderi darllen, sachau straeon a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llyfrau yn gallu helpu rhieni a gofalwyr i hybu llythrennedd. Yn ogystal, tynnwyd sylw at werth cymorth sy'n helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut gall gweithgareddau bob dydd hybu a chryfhau sgiliau llythrennedd.

Cyfeiriwyd at lyfrgelloedd a mannau cymunedol fel rhan o'r ecosystem ddarllen ehangach. Roedd profiadau cadarnhaol blaenorol o lyfrgelloedd neu weithgareddau darllen cymunedol yn llwyddo i hybu mwy o ddiddordeb, ac ystyriwyd bod llwybrau lleol y mae pobl yn ymddiried ynddyn nhw yn bwysig i gyrraedd teuluoedd y tu hwnt i'r ysgol.

## 6.4 Ffactorau sy'n effeithio ar lefelau diddordeb

Mae'r rhwystrau a'r ffactorau sy'n helpu i hybu diddordeb mewn llythrennedd, fel y'u nodwyd gan ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr, yn awgrymu bod pum ffactor cydgysylltiedig yn dylanwadu ar berthynas pobl â llythrennedd. Gyda'i gilydd, mae'r themâu hyn yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer deall beth sy'n hybu diddordeb neu'n cyfyngu arno yn y cartref, yn yr ysgol ac mewn lleoliadau cymunedol. Maen nhw hefyd yn helpu i esbonio pam nad yw gwella un agwedd ar y ddarpariaeth yn debygol o fod yn ddigon ar ei ben ei hun, gan fod y rhyngweithio rhwng cymhelliant, hygyrchedd, cymorth a ffactorau cyd-destunol ehangach yn dylanwadu ar lefel y diddordeb.

- Mae cymhelliant yn ymwneud â'r graddau y mae darllen yn teimlo'n bleserus, ystyrlon a pherthnasol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gael gafael ar destunau sy'n adlewyrchu hunaniaethau, diddordebau, ieithoedd a phrofiadau dysgwyr, yn ogystal â chyfleoedd i ddewis beth maen nhw'n ei ddarllen, a phryd a sut.
- Mae hygyrchedd allanol yn cyfeirio at y deunyddiau darllen addas sydd ar gael, ac at y cyfleoedd sydd i'w defnyddio. Roedd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar hyn, gan gynnwys argaeledd llyfrau yn y cartref ac yn yr ysgol, darpariaeth llyfrgelloedd, cost, ac argaeledd adnoddau Cymraeg, dwyieithog, digidol ac amlfoddol.
- Mae hygyrchedd cynhenid yn ymwneud â ph'un a all dysgwyr fynd ati'n llwyddiannus i ddarllen unwaith y bydd deunyddiau ar gael. Roedd hyder wrth ddarllen, dealltwriaeth, geirfa, sgiliau dadgodio, addasrwydd testun a hygyrchedd i gyd yn dylanwadu ar ba mor rhwydd a phleserus yr oedd darllen yn teimlo.
- Mae cymorth cymdeithasol a chydberthnasol yn adlewyrchu rôl ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, cyfoedion, llyfrgelloedd a chymunedau wrth annog darllen. Nodwyd bod anogaeth, pobl sy'n rhoi patrwm i'w efelychu, profiadau rhannu darllen, argymhellion, cymorth ymarferol a diwylliant darllen cadarnhaol yn ddylanwadau pwysig ar lefelau diddordeb.
- Mae amgylchedd ac amodau yn ymwneud â'r amgylchiadau ymarferol sy'n galluogi darllen neu'n cyfyngu arno. Roedd amser, arferion, mannau darllen, gweithgareddau sy'n cystadlu â'i gilydd ac amodau ehangach yn y cartref neu'r gymuned oll yn effeithio ar gyfleoedd i ddangos diddordeb mewn llythrennedd.

# 7. Meysydd i'w gwella o ran hyrwyddo darllen er pleser

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at sawl ffordd y gellid atgyfnerthu gweithgarwch sy'n hyrwyddo darllen er pleser. Roedd yr awgrymiadau hyn yn ymestyn y tu hwnt i gynlluniau neu raglenni pwrpasol ac roedden nhw'n cynnwys materion ehangach yn ymwneud â'r gallu i gael gafael ar lyfrau, llyfrgelloedd, marchnata, diwylliant ysgolion, gweithio mewn partneriaeth, cymorth i ymarferwyr a gwerthuso.

## 7.1 Gwella'r gallu i gael gafael ar lyfrau deniadol o ansawdd da

Y maes i'w wella y cyfeiriwyd ato amlaf oedd y gallu i gael gafael ar lyfrau o ansawdd da sy'n cwmpasu amrywiaeth o genres, proffiliau oedran a lefelau darllen. Pwysleisiodd ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill bwysigrwydd buddsoddi mewn llyfrgelloedd ysgolion yn ogystal â rhai cyhoeddus, gan gynnwys diweddaru'r llyfrau sydd ar gael yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod casgliadau yn adlewyrchu amrywiaeth ehangach o ddiddordebau a galluoedd.

**Roedd awgrymiadau penodol yn cynnwys llyfrau â lluniau sy'n apelio at bobl ifanc yn eu harddegau, llyfrau byrrach i ddysgwyr hŷn, llyfrau mwy amrywiol a chynrychioliadol a llyfrau Cymraeg hawdd i'w deall sy'n sensitif i dafodiaith. Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at bwysigrwydd llyfrau lle gall dysgwyr weld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu ynddyn nhw.**

**Os nad oes gan ysgolion lyfrgelloedd, argymhellodd rhai rhanddeiliaid y dylid rhoi blaenoriaeth i fannau pwrpasol ar gyfer llyfrau a darllen ym mhob ysgol. Roedd hyn yn gysylltiedig â phryderon y gallai llyfrau fod yn llai gweladwy i blant a phobl ifanc pan fyddan nhw'n cael eu cadw mewn cypyrddau neu pan nad ydyn nhw yr un mor amlwg â thechnoleg ddigidol.**

## 7.2 Ehangu'r ffordd mae darllen er pleser yn cael ei ddeall

Galwodd rhanddeiliaid am ddiffiniad ehangach o ddarllen. Roedd galwadau i gydnabod comics, isdeitlau, testun digidol, llyfrau sain, drama, cerddoriaeth, digwyddiadau byw a llythrennedd amlfoddol fel mathau dilys ac ystyrlon o ddarllen y mae plant a phobl ifanc eisoes yn dewis dangos diddordeb ynddyn nhw.

Roedd hyn yn gysylltiedig â'r nod o wneud darllen yn fwy cynhwysol ac o herio canfyddiadau bod llyfrau'n ddiflas, yn anhygyrch neu'n berthnasol i'r ysgol yn unig. Fodd bynnag, dylid ymdrin â rôl fformatau digidol yn ofalus. Lleisiwyd pryderon y gallai platfformau digidol ddisodli buddsoddiad mewn llyfrau print, ochr yn ochr â safbwyntiau nad yw dulliau traddodiadol sy'n seiliedig ar lyfrau, o bosibl, yn adlewyrchu'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn darllen heddiw.

## 7.3 Symud y tu hwnt i weithgareddau untro

Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch natur fyrdymor cynlluniau sy'n para am ychydig o amser yn unig cyn colli momentwm. Er enghraifft, nodwyd bod Diwrnod y Llyfr yn cyfrannu at hyrwyddo darllen er pleser, ond roedd llawer o randdeiliaid yn ei ystyried yn ddigwyddiad untro ac yn teimlo nad oedd ei ddylanwad hirdymor yn fawr. Yn eu barn nhw, roedd hyn oherwydd bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar wisgo fel cymeriadau nag ar y llyfrau eu hunain.

Mae hyn yn awgrymu y dylai gweithgarwch ganolbwyntio ar barhad, gwaith dilynol a hybu diddordeb yn y tymor hirach, yn hytrach na dibynnu ar ymgyrchoedd neu ddigwyddiadau byr yn unig.

## 7.4 Atgyfnerthu diwylliant darllen drwy'r ysgol gyfan a chymorth i ymarferwyr

Dywedodd rhanddeiliaid fod arweinyddiaeth gref yn yr ysgol yn bwysig i ymgorffori darllen er pleser yng ngweledigaeth ac arferion bob dydd ysgolion. Dywedodd ymarferwyr a rhanddeiliaid hefyd fod angen adnoddau hawdd eu defnyddio, gan gynnwys deunyddiau y gellir eu deall yn gyflym a chronfeydd o syniadau sy'n gysylltiedig â thestunau.

Tynnwyd sylw hefyd at ddysgu proffesiynol a chanllawiau i ymarferwyr. Mae angen helpu ymarferwyr i gymell ac ysbrydoli darllen er pleser, defnyddio adnoddau'n effeithiol a sicrhau bod gweithgarwch sy'n ymwneud â llythrennedd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

## 7.5 Datblygu adnoddau sy'n adlewyrchu cyd-destunau gwahanol ac anghenion gwahanol dysgwyr

Galwodd rhanddeiliaid am adnoddau mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys print a digidol, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae angen i adnoddau adlewyrchu cyd-destunau ysgolion gwahanol, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg ac amlieithog, yn ogystal ag ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

Nodwyd bod adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd yn faes i'w wella. Gofynnodd ymarferwyr am adnoddau sy'n diwallu anghenion gwahanol ac am wahaniaethu cliriach rhyngddyn nhw. Mae'r canfyddiadau hefyd yn tynnu sylw at yr angen am adnoddau sy'n addas ar gyfer dysgwyr hŷn, yn enwedig pan nad yw lefel darllen, aeddfedrwydd, diddordebau a hyder yn cyd-fynd yn daclus â'i gilydd.

## 7.6 Cryfhau gweithio mewn partneriaeth a gwerthuso

Nodwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn faes arall i'w wella. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at rôl llyfrgelloedd, ysgolion, awduron, sefydliadau celfyddydol, a phartneriaid eraill wrth hybu darllen er pleser. Pwysleisiodd rhai hefyd fod angen osgoi jargon addysg a allai eithrio sefydliadau celfyddydol ac awduron a darparu llwybrau cliriach ar gyfer sefydliadau nad ydyn nhw'n sefydliadau addysg.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at yr angen am drefniadau gwerthuso mwy cadarn. Mynegwyd pryder nad yw'r cynlluniau presennol yn cael eu gwerthuso'n ddigon cyson, ei bod yn anodd mesur y mwynhad a gaiff pobl o ddarllen, a bod sawl cynllun yn aml yn rhedeg ar yr un pryd, gan ei gwneud hi'n anodd asesu eu heffaith unigol. O ganlyniad, mae angen rhoi lle mwy amlwg i werthuso wrth gomisiynu gweithgarwch yn y dyfodol.

# 8. Tystiolaeth, gwerthuso a chomisiynu yn y dyfodol

Mae'r ymchwil yn darparu sail ddefnyddiol ar gyfer comisiynu yn y dyfodol, ond mae cyfyngiadau pwysig o hyd o fewn y sail dystiolaeth sydd ar gael. Mae gwybodaeth ar gael am ymyriadau llythrennedd, datblygu darllen, darllen er pleser, llythrennedd dwyieithog a'r gallu i gael gafael ar adnoddau, ond mae ansawdd, annibyniaeth a pherthnasedd y data hyn yn amrywio.

Cynhaliwyd neu comisiynwyd rhai gwerthusiadau gan sefydliadau a oedd yn ymwneud â llunio neu gyflwyno rhaglenni. Mae hyn yn gyfyngiad pwysig wrth ddehongli tystiolaeth am effeithiau. At hynny, cymharol brin yw'r dystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, gyda rhai canfyddiadau yn dod o gyd-destun ehangach y Deyrnas Unedig neu gyd-destunau rhyngwladol. Er y gall y canfyddiadau hyn lywio syniadaeth yn y dyfodol, mae angen eu hystyried mewn perthynas â chyd-destun ieithyddol, diwylliannol ac addysgol Cymru.

Soniodd rhanddeiliaid hefyd am fylchau yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â darllen er pleser. Roedden nhw'n dweud bod llawer o'r dystiolaeth sydd ar gael yn canolbwyntio ar pam mae darllen yn bwysig, yn hytrach na'r hyn sy'n gwneud rhaglenni penodol yn effeithiol, pa elfennau sy'n cyfrannu fwyaf at ddeilliannau cadarnhaol, neu sut gellir atgynhyrchu dulliau llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau. Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at brinder tystiolaeth sy'n edrych ar yr holl gynlluniau mewn ffordd gymharol, at dystiolaeth gyfyngedig am werth am arian ac at ddealltwriaeth gyfyngedig o'r hyn sy'n gweithio i grwpiau penodol, gan gynnwys dysgwyr difreintiedig, dysgwyr dwyieithog a dysgwyr oedran uwchradd.

**Mae heriau penodol yn gysylltiedig â gwerthuso darllen er pleser. Mae canlyniadau fel mwynhad, cymhelliant, hyder ac arferion darllen yn anoddach i'w mesur na chyrhaeddiad addysgol. Yn ogystal, mae sawl cynllun yn aml yn gweithredu ar yr un pryd, gydag ysgolion yn cyflwyno ystod o weithgareddau dros amser. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu effaith unrhyw raglen neu adnodd penodol.**

# 9. Ystyriaethau ac argymhellion ar gyfer Adnodd a phartneriaid

Mae'r canfyddiadau yn cyflwyno blaenoriaethau allweddol ar gyfer hybu mwy o diddordeb mewn llythrennedd a darllen. Yn ogystal â datblygu sgiliau llythrennedd craidd, maen nhw'n pwysleisio pwysigrwydd creu'r amodau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddangos diddordeb mewn darllen ac ysgrifennu mewn ffyrdd sy'n ystyrlon, yn ysgogol ac yn gynaliadwy.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen gweithredu mwy cydlynol drwy'r holl system. Mae hyn yn cynnwys gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau o ansawdd da, cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, ehangu'r cymorth i ddysgwyr oedran uwchradd, parhau i fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol ymarferwyr, ymwneud mwy â theuluoedd a chymunedau, a chryfhau gwerthuso a chydweithio. Gyda'i gilydd, mae'r ystyriaethau hyn yn darparu sylfaen ar gyfer tirwedd llythrennedd a darllen fwy cydlynol a theg yng Nghymru.

## 9.1 Datblygu dull cenedlaethol cydlynol ar gyfer llythrennedd a darllen er pleser

Mae angen dull cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a darllen er pleser sy'n cwmpasu datblygu sgiliau a hybu diddordeb. Dylai'r dull ddarparu cyfeiriad cyffredin a fydd yn sicrhau mwy o gydgysylltu a gwell aliniad rhwng lleoliadau addysgol, llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol, gan hyrwyddo negeseuon cyson, cymorth a mwy o ymwybyddiaeth i ddysgwyr, teuluoedd a rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 1:** Dylai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sefydlu dull cenedlaethol mwy cydlynol ar gyfer hybu llythrennedd a darllen er pleser, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn llai tameidiog a rhoi mwy o eglurder i ymarferwyr a theuluoedd.

## 9.2 Datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn am yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae angen buddsoddiad pellach mewn ymchwil hydredol sy'n benodol i Gymru er mwyn datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn am ddulliau effeithiol o hybu llythrennedd a darllen er pleser. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddeall beth sy'n gweithio i ddysgwyr difreintiedig, mewn cyd-destunau dwyieithog, ac ymhlith dysgwyr oedran uwchradd.

**Argymhelliad 2:** Dylid ymgorffori gofynion gwerthuso yn y broses o lunio a chomisiynu rhaglenni ac adnoddau llythrennedd. Dylai'r gwaith gwerthuso gynnwys:

- damcaniaethau newid clir
- deilliannau (byrdymor, tymor canolig a hirdymor) diffiniedig
- dangosyddion cyffredin, y cytunwyd arnyn nhw, ar gyfer ymddygiadau darllen, cymhelliant a lefelau diddordeb, ochr yn ochr â deilliannau cyrhaeddiad
- asesiad o'r effaith ar grwpiau blaenoriaeth
- cynlluniau ar gyfer rhoi gwybodaeth ar waith a mecanweithiau ar gyfer lledaenu'r hyn a ddysgwyd

## 9.3 Sicrhau bod gan ymarferwyr yr wybodaeth a'r arweiniad angenrheidiol i hybu llythrennedd a darllen er pleser yn effeithiol

Nid yw bodolaeth adnoddau llythrennedd i ddysgwyr ar ei phen ei hun yn ddigon. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o adnoddau a bod yn hyderus o ran y ffordd orau o'u defnyddio.

**Argymhelliad 3**: Dylai Adnodd ystyried gweithio gyda Dysgu a phartneriaid eraill i ddarparu canllawiau clir a hawdd i'w defnyddio i ymarferwyr er mwyn hybu llythrennedd a darllen er pleser. Gallai'r canllawiau gynnwys:

- sut i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol
- sut i hyrwyddo darllen er pleser yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt
- sut i addasu adnoddau ar gyfer dysgwyr gwahanol gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr dwyieithog
- sut i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol mewn gwahanol leoliadau
- sut i integreiddio llythrennedd drwy'r holl Gwricwlwm i Gymru
- sut i hybu diwylliant darllen drwy'r ysgol gyfan
- darllen er pleser a chymhelliant

## 9.4 Gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau cynhwysol o ansawdd da

Mae angen gwella gallu ysgolion a theuluoedd i gael gafael ar lyfrau a deunyddiau darllen. Mae angen i'r deunyddiau hyn adlewyrchu hunaniaethau, diddordebau a phrofiadau amrywiol, a chynnwys fformatau sy'n ymestyn y tu hwnt i lyfrau traddodiadol. Dylai hyn gynnwys ystyried cymorth parhaus i lyfrgelloedd ysgolion, partneriaethau â llyfrgelloedd cyhoeddus, cynlluniau wedi'u targedu ar gyfer anrhegu llyfrau, a chynlluniau i hybu darllen yn y cartref.

**Argymhelliad 4:** Dylid rhoi blaenoriaeth i gomisiynu adnoddau llythrennedd hygyrch o ansawdd da y gellir eu haddasu. Dylai'r adnoddau hyn:

- fod ar gael am ddim neu'n rhad i ysgolion a theuluoedd
- adlewyrchu amrywiaeth o hunaniaethau, diddordebau a phrofiadau
- gael eu cyflwyno mewn gwahanol fformatau (e.e. sain, print, digidol, amlfoddol)

## 9.5 Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog

Mae bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, yn enwedig o ran amrywiaeth genres a pha mor addas yw adnoddau ar gyfer gwahanol oedrannau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Argymhelliad 5:** Dylai Adnodd roi blaenoriaeth i gomisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog sydd:

- wedi'u llunio a'u datblygu'n benodol ar gyfer cyd-destunau Cymreig
- yn cefnogi cynnydd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Chod Cynnydd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac adran 12 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025
- yn adlewyrchu ehangder tafodieithoedd, hunaniaethau a phrofiadau byw
- yn diwallu anghenion dysgwyr ym mhob grŵp oedran, gan gynnwys dysgwyr oedran uwchradd a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

- yn darparu amrywiaeth eang o genres, fformatau a lefelau her sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau a galluoedd

## 9.6 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd

Mae angen i gymorth ar gyfer llythrennedd a darllen er pleser i ddysgwyr oedran uwchradd fod yn flaenoriaeth. Mae angen dulliau cynaliadwy o feithrin diddordeb mewn darllen, sy'n cydnabod pwysigrwydd llythrennedd drwy'r holl gwricwlwm ac yn hyrwyddo darllen er pleser.

**Argymhelliad 6:** Dylai Adnodd ystyried comisiynu a chaffael adnoddau a chynlluniau i helpu i ddatblygu llythrennedd dysgwyr oedran uwchradd, gan gynnwys:

- testunau diddorol, addas i'r oedran sy'n cyfoethogi dysgu
- fformatau y gellir uniaethu â nhw sy'n addas ar gyfer arferion darllen pobl ifanc
- dulliau sy'n cymell y dysgwyr ac yn berthnasol iddyn nhw
- dulliau sy'n annog darllen er pleser

## 9.7 Cryfhau cyfranogiad teuluoedd a'r gymuned mewn llythrennedd

Gall canllawiau ac adnoddau y tu allan i ysgolion fod yn ffactor pwysig wrth hybu diddordeb mewn llythrennedd.

**Argymhelliad 7:** Dylai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ystyried, canfod a, lle bo'n briodol, gomisiynu adnoddau ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd:

- yn ymarferol ac yn hygyrch
- yn rhoi pwyslais ar weithgareddau darllen bob dydd (nid darllen ffurfiol yn unig)
- ar gael mewn sawl iaith a fformat

## 9.8 Goblygiadau ar gyfer y dyfodol

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull mwy cydlynol a chyd-drefnus o hybu llythrennedd a diddordeb mewn darllen yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn amlygu'r angen i symud y tu hwnt i dirwedd dameidiog o raglenni drwy sicrhau mwy o gydgysylltu, gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau addas a pherthnasol, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn weladwy ac yn ddefnyddiadwy yn y cartref, yr ysgol, y llyfrgell ac mewn cyd-destunau cymunedol. Mae mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, yn ogystal â'r ddarpariaeth gyfyngedig iawn a ganfuwyd ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd, yn parhau i fod yn bwysig.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn pwysleisio'r angen i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i ymarferwyr, ehangu gwaith i ymwneud â theuluoedd a chymunedau, a datblygu'r sail dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso rhaglenni'n fwy systematig a meithrin dealltwriaeth well o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol. Gellir cyflawni'r nodau hyn drwy ymgorffori gwerthuso yn fwy cyson a thrwy fynd i'r afael â'r cyfyngiadau presennol mewn tystiolaeth sy'n benodol i Gymru.

Er mwyn hybu llythrennedd a diddordeb mewn darllen, nid yn unig y mae angen sicrhau bod modd cael gafael ar adnoddau, ond mae angen darparu adnoddau sy'n hygyrch, yn berthnasol, ac yn ddwyieithog. Mae angen i ymarferwyr a theuluoedd allu helpu i ddefnyddio'r adnoddau hyn; mae angen i'r adnoddau fod yn gyson rhwng lleoliadau; ac mae angen eu gwerthuso mewn ffyrdd sy'n cryfhau'r ddealltwriaeth o ddulliau effeithiol yng Nghymru. Drwy wneud hyn, gall Cymru helpu i sicrhau bod gan ein holl blant a phobl ifanc y cymorth, y gallu i gael gafael ar adnoddau, a'r cymhelliant sydd eu hangen arnyn nhw i ddod yn ddarllenwyr hyderus a galluog drwy gydol eu hoes.

# Atodiad A: Y dirwedd rhaglenni

| | | MATH O RAGLEN | | DATBLYGWR | | DULL O GYFLAWNI | | COST | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | rhaglen darllen er pleser | rhaglen ymyrraeth llythrennedd | dan arweiniad llywodraeth neu elusen | darparwr masnachol | darpariaeth mewn ysgolion | darpariaeth yn y gymuned neu yn y cartref | tâl am ddefnydd | defnydd am ddim |
| BLYNYDDOEDD CYNNAR | Bownsio ac Odli | x | | x | | | x | | x |
| | Imagination Library | x | | **X** | x | | x | | x |
| | WellComm | | x | | x | x | | x | |
| | Drawing Club | x | | | x | x | | x | |
| | Teach Your Monster | | x | | x | x | **X** | x | **X** |
| | Sialens Ddarllen yr Haf | **X** | x | x | | x | **X** | | x |
| | Darllen Co. | x | **X** | | x | x | | x | |
| | Unlocking Letters & Sounds | | x | | x | | x | x | |
| | Speech & Language Link | | x | | x | x | | x | |
| | Dechrau Da | x | x | x | | x | x | | x |
| | Diwrnod y Llyfr | x | | x | | x | **X** | | x |
| | Elklan Course | | x | | x | x | x | x | |
| | Dysgu (cyffredinol) | x | x | x | | x | | | x |
| | Cynlluniau anrhegu llyfrau (cyffredinol) | x | | x | x | x | x | | x |
| | Read Write Phonics | | x | | x | x | | x | |
| | Talk for Writing | | x | | x | x | | x | |
| | Rhaglenni Rhydychen | | x | | x | x | | x | |
| | Reading Eggs | | x | | x | x | x | x | |
| | Flying Start to Literacy | | x | | x | x | | x | |
| | Jolly Phonics | | x | | x | x | | x | |
| | Monster Phonics | | x | | x | x | | x | |
| | Letters & Sounds | | x | x | | x | | x | |
| | Voice 21 | | x | | x | x | | x | |
| | Giglets | | x | | x | **X** | x | x | |
| | Sounds-Write Phonics | | x | | x | **X** | x | x | |
| | Jolly Classroom | | x | | x | x | | x | |
| | Tric a Chlic | | x | x | x | x | x | x | |
| | Sêr y Silffoedd | **X** | x | x | | | x | | x |
| YSGOL GYNRADD | Rainbow Readers | | x | | x | x | | x | |
| | Premier League Primary Stars | x | | | x | x | | | x |
| | Rapid Readers | | x | | x | x | | x | |
| | Accelerated Reader | | x | | x | x | | x | |
| | Word Wasp | | x | | x | **X** | x | x | |
| | Toe by Toe | | x | | x | **X** | x | x | |
| | Extreme Reading | x | | x | | x | | | x |
| | Beavers Reading Badge | x | | x | | | x | x | |
| | Big Cat Books | | x | | x | **X** | x | x | |
| | Young Writers Programme | x | | x | | x | x | | x |
| | Into Film | | x | | x | x | | | x |
| | Spelling Shed | | x | | x | x | | x | |
| | Nessy | | x | | x | **X** | x | x | |
| | IDL | | x | | x | **X** | x | x | |
| | Fresh Start | | x | | x | x | | x | |
| YSGOL UWCHRADD | Sparx Reader | | x | | x | **X** | x | x | |
| | Ymweliadau gan awduron a beirdd (cyffredinol) | x | | | x | x | x | x | x |
| POB OED | Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2026 | x | | x | | x | x | | x |
| | Sound Discovery | | x | | x | x | **X** | x | |
| | Llyfrgelloedd (cyffredinol) | **X** | x | x | | | x | | x |
| | Bell Foundation | x | | x | | x | x | | x |
| | Widgit | | x | | | x | | x | |
| | Twinkl | | x | | x | **X** | x | x | |

**Allwedd:** Mae '**X**' yn dynodi'r prif raglen, datblygwr, partner darparu a chost. Er enghraifft, os yw rhaglen yn cynnig defnydd am ddim a defnydd am dâl, ond bod y defnydd am dâl yn cynnig mwy o nodweddion, bydd '**X**' yn cael ei roi wrth y categori defnydd am dâl. Mewn rhai achosion, mae x yn ymddangos mewn mwy nag un categori am nad oes gwahaniaeth clir rhwng yr opsiynau sydd ar gael. *Bwriad y tabl hwn yw rhoi trosolwg bras o'r rhaglenni a drafodir, at ddibenion enghreifftiol.*

adnodd

yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

**adnodd.llyw.cymru**

Adnodd, Tramshed Tech, Pendyris St, Caerdydd, CF11 6BH. Hawlfraint © 2026 Adnodd. Cedwir Pob Hawl.